# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-15-06(t.8)

### Dyddiad: Dydd Mercher 15 Tachwedd 2006
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 1, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Adroddiad ar bresenoldeb y Dirprwy Weinidog yng Nghynhadledd y Ffederasiwn Rhyngwladol dros Heneiddio

#### Diben

Rhoi gwybod i'r pwyllgor am ganlyniad presenoldeb y Dirprwy Weinidog yng Nghynhadledd y Ffederasiwn Rhyngwladol dros Heneiddio.

#### Crynodeb

Yn ystod mis Mai/Mehefin 2006 fe gynhaliodd y Ffederasiwn Rhyngwladol dros heneiddio (IFA) ei 8fed cynhadledd fyd eang ar heneiddio yn Copenhagen. Nodau'r IFA yw hybu cydweithio trawsddiwylliannol a byd eang er mwyn mynd i'r afael â thasgau anodd heneiddio byd eang. Prif themâu'r gynhadledd oedd:

- Economeg Heneiddio
- Cyfleoedd Heneiddio
- Heneiddio'n Heini – Heneiddio'n Holliach
- Grymuso – Cymryd Rhan

Gwahoddir y pwyllgor i nodi'r papur hwn.

#### Cefndir

Fe arweiniodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddirprwyaeth 'Tîm Cymru' i'r Gynhadledd. Yn eu plith roedd swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Age Concern Cymru. Cafodd y tîm ei gefnogi gan Lysgenhadaeth Prydain.

Amcanion yr ymweliad oedd:

- darparu a chyflwyno symposiwm ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru;
- rhoi pum cyflwyniad llafar ar y Comisiynydd Pobl Hyn, Prif Ffrydio a Chydraddoldeb, Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach, Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a Dinasyddiaeth Lawn ar gyfer Pob Oedran;
- parhau i ddatblygu a hybu'r cysylltiadau rhwng Cymru a'r gymuned ryngwladol ehangach, mewn perthynas â'n Strategaeth;

- cynnal rhaglen o gyfarfodydd.

Ar ben hynny, bu swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn bresennol mewn Cynhadledd i Uwch Swyddogion a gynhaliwyd ar 30 Mai, y bu gweision sifil o fwy na 60 gwlad yn ei mynychu. Roedd y gynhadledd yn trin a thrafod sut yr oedd polisïau ar gyfer poblogaeth sy’n heneiddio er mwyn cynnal a hwyhau yr oes weithio yn cael eu datblygu.

Bu nifer fawr yn bresennol yn y gynhadledd, gydag oddeutu 1100 o gynrychiolwyr o fwy na 100 gwlad wedi’u cofrestru ar gyfer y Gynhadledd. Roedd y carfanau mwyaf yn dod o UDA, Awstralia a Denmarc. Daeth nifer llai, ond sylweddol, o gynrychiolwyr o Affrica a De-ddwyrain Asia hefyd. Aeth y Dirprwy Weinidog a’r swyddogion i nifer o gyfarfodydd ffurfiol gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Denmarc er mwyn trafod eu paratoadau ar gyfer cymdeithas sy’n heneiddio. Ar ben hynny, cawsant nifer o gyfarfodydd anffurfiol gyda llunwyr polisiau o Affrica, UDA, Canada, Israel a Japan. Hefyd, fe roddodd y Dirprwy Weinidog bum cyflwyniad i fynychwyr y Gynhadledd, a oedd yn cynrychioli amrywiaeth eang o wledydd.

## Canlyniadau’r Gynhadledd

Dyma Ganlyniadau a sylwadau cychwynnol y Gynhadledd:

- rhoddwyd sylw amlycach iawn i’r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru a bu’r sesiynau ar y Strategaeth a’i rhaglenni yn llwyddiant ysgubol. Ym mhob achos cafodd pob un o’r cwestiynau dilynol gan y gynulleidfa eu cyfeirio at Gymru yn hytrach na’r gwledydd eraill a oedd hefyd yn rhoi cyflwyniadau yn ogystal â ninnau;
- yn ystod y gynhadledd manteisiwyd ar sawl cyfle i rwydweithio er mwyn egluro’r Strategaeth a’i maes gweithredu. Fe gymerwyd camau gweithredu dilynol gyda mwy na 15 gwlad a ofynnodd am wybodaeth ychwanegol am y Strategaeth, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hyn a’r Comisiynydd Pobl Hyn;
- daliwyd ar gyfleoedd i gael rhagor o wybodaeth am y Strategaethau Heneiddio mewn nifer o wledydd eraill ac mae camau gweithredu yn mynd rhagddynt o hyd gydag, ymysg eraill, UDA (Deddfwriaeth a Strategaeth), Denmarc (cymryd rhan) Awstralia (Strategaeth a Cherdyn Hawliau Pobl Hyn);
- mae nifer o wledydd yn cynnig rhai modelau diddorol inni eu hystyried ond hyd y gallem weld rydym ni, yn gyffredinol, wedi bwrw ymlaen â hyn a chadw’n wastad ag UDA, Canada ac Awstralia. Yn y gwledydd hynny rhoddir sylw amlwg dros ben i’r mater hwn, yn wleidyddol a gweinyddol;
- roedd ein hymdriniaeth gynhwysfawr â’r Strategaeth, y ffaith ei bod yn canolbwyntio ar ddinasyddiaeth i bobl hyn ac, yn benodol ei fframwaith gweithredu cadarn a’r Comisiynydd, o ddiddordeb mawr i’r cynrychiolwyr eraill.
- at ei gilydd roedd y Gynhadledd yn gyfle gwerthfawr a fu’n fodd i roi sylw amlycach i Gymru, y Cynulliad a’i bolisïau dros bobl hyn.

## Datblygiadau i’r Dyfodol ar ôl y Gynhadledd

Wrth ddadansoddi’r cyflwyniadau, y deunydd darllen a chynnwys yr areithiau, mae modd rhestru

nifer o feysydd polisi lle gallwn ni ailedrych yn fanwl ar ein dull ymdrin ein hunain yng Nghymru. Gallwn hefyd ddefnyddio’r adnoddau a sicrhawyd yn y Gynhadledd er mwyn ceisio gwella rhagor. Mae’r Gynhadledd wedi rhoi goleuni newydd ac ychwanegol ar y gwaith ymchwil newydd ar heneiddio, y polisiau a’r rhaglenni newydd, y gall pob un ohonynt gynorthwyo i lunio'r cam nesaf yn natblygiad ein Strategaeth yng Nghymru, mewn meysydd fel dysgu gydol oes, cyfranogiad a denu pobl hyn, cam-drin pobl hyn, datblygu economaidd a phrif ffrydio.

Mae’r gwaith hwn i gyd, ar hyn o bryd, yn cyfrannu at y gwerthusiad sy’n mynd rhagddo ynghylch y Strategaeth Pobl Hyn yng Nghymru a’r Grwp Gorchwyl a Gorffen y mae’r Dirprwy Weinidog yn ei gadeirio. Bydd y gwerthusiad yn cael ei gwblhau ar ddechrau’r flwyddyn a bydd yn rhoi canolbwynt a chyfeiriad newydd i’n polisiau ynghylch heneiddio at y dyfodol.

## Goblygiadau ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i’r papur hwn.

## Themâu Trawsbynciol

Un o themâu allweddol y Strategaeth Pobl Hyn yng Nghymru yw trawsbwnc a chyfle cyfartal. Oherwydd natur y strategaeth hon, mae hi’n ymwneud ac yn cydweithio â llywodraeth leol, busnes a’r sector gwirfoddol.

## Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pynciau

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

**Dr Brian Gibbons**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyswllt: Steve Vincent, OPLTCP, ffôn: 3049